Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Hedd Wyn
# Trawsfynydd
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 4SE

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bro Hedd Wyn ym mhentref Trawsfynydd yng Ngwynedd. Mae’n gwasanaethu’r pentref ei hun, a’r ardal wledig o gwmpas. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 72 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 6 o oed meithrin. Tri dosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol.

Mae tua 90% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Tua 3% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 22% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2000. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bro Hedd Wyn yn 2016 - 2017 yw £3,553. Yr uchafswm ar gyfer disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a’r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Bro Hedd Wyn yn y 71ain safle o’r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a'u bod yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn gyson uchel
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion, sydd â phwyslais amlwg ar sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o hanes a diwylliant yr ardal leol
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth, sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion, a'i bod wedi cyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- y staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i gynnig cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- yr ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen a sillafu Saesneg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Cryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion o allu uwch

A4 Datblygu'r ardal allanol i ddarparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio iaith raenus a chywir. Mae medrau llafar yr ychydig ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau pan fyddant yn siarad am eu gwaith yn y ddwy iaith. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith ac yn dewis ei defnyddio i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn eu bod ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb, rhugldder, mynegiant a goslef. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn darllen ar goedd yn y Gymraeg gyda chywirdeb a rhugldder, gan ddefnyddio strategaethau priodol er mwyn sefydlu ystyr. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill, er enghraifft wrth iddynt gywain tystiolaeth o fewn papurau newydd lleol y cyfnod i ystyried effaith yr Ail Ryfel Byd ar yr ardal leol. Mae'r mwyafrif yn darllen yn gynyddol gywir ac ystyrlon yn Saesneg. Ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i'r digwyddiadau arweiniodd at y rhyfel. Er hyn, mae lleiafrif yn ei chael hi'n anodd darllen ac ynganu geiriau anghyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio'u geirfa eang ac iaith goeth i ysgrifennu darnau estynedig diddorol ar draws y cwricwlwm. Gwelir hyn wrth iddynt greu adroddiad papur newydd ar estroniaid o'r gofod yn cyrraedd Dolgellau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis geirfa ddiddorol yn Gymraeg ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu am drychineb Aberfan. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da yn Saesneg, er enghraifft wrth iddynt greu taflen wybodaeth i ddenu ymwelwyr i'r ardal leol. Fodd bynnag, mae safon sillafu Saesneg lleiafrif o ddisgyblion yn anghyson.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif priodol i'w hoed ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Maent yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am hoff ffrwythau eu ffrindiau ac yna cyflwyno eu darganfyddiadau ar ffurf graff bloc. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso'u medrau'n dda mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth greu a modelu cwpan sy'n gallu dal 100ml o ddŵr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ac ar bapur i ddatrys problemau er enghraifft wrth gyfrifo cost prynu adnoddau er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth tecstilau'r Urdd. Mae'r disgyblion o allu uwch yn defnyddio'u medrau trin data yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw sut maent yn ymchwilio i ystadegau allweddol cyfrifiad o boblogaeth Caerdydd wrth astudio sut mae'r ddinas wedi newid dros gyfnod.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh yn hyderus i ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd a gwneud cyflwyniadau da o'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion blwyddyn 2 yn cyfuno llun a thestun yn greadigol wrth greu lluniau tân gwyllt. Maent yn trin data a gesglir, er enghraifft o liw llygaid eu ffrindiau, yn effeithiol i greu graffiau bloc. Maent yn dechrau defnyddio medrau codio wrth greu cyfres o gyfarwyddiadau i symud tegan electroneg o un lle i'r llall. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar atyniadau'r ardal leol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am e-ddiogelwch ac maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth ganfod gwybodaeth am effaith y bomio ar Lannau Merswy. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwybod sut i fwydo bas data syml i greu graffiau a siartiau, er enghraifft wrth gymharu pellter teithiau gwyliau. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch wedi amrywio, ond gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio ond gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion yn deall yn dda y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod sut i wella eu gwaith, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth i'r cyngor ysgol drefnu gweithgareddau codi arian at nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. Mae hyn yn cyfoethogi eu medrau llythrennedd yn dda, yn ogystal â datblygu ynddynt ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel, ac wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron bob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn efeithiol. Maent yn cynllunio'r cwricwlwm yn fwriadus er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau cyfleoedd digon cyson iddynt ddatblygu eu medrau yn yr ardal tu allan. Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r pwyslais ar sicrhau ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant yr ardal leol, fel gwaith ymchwilio disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i effaith rhyfel ar y gymuned.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei gynllunio a'i blethu'n effeithiol i'r cynlluniau gwaith. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data a modelu mewn TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig ac mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o falchder ymhlith disgyblion tuag at eu hiaith, gwlad a diwylliant.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau addas i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn astudio gwahanol ffyrdd o gynhyrchu ynni. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am fywyd mewn gwledydd eraill trwy, er enghraifft annog disgyblion Blwyddyn 3 a 4 i astudio'r goedwig drofannol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus. Mae'r cydweithio effeithiol sy'n bodoli rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gorgyfarwyddo gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol i gynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Maent wedi mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol er mwyn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau, er enghraifft medrau darllen disgyblion. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol iddynt yn bodloni'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff manteision byw yn iach a hybu iechyd corfforol disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog o fewn yr ysgol a'r

gymuned sy'n datblygu medrau cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Un enghraifft o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion trwy ymroi i gefnogi'r ddwy eisteddfod leol a'r sioe amaethyddol yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu'n llawn fel aelodau o'r gymuned leol ac yn gwerthfawrogi eu rôl o fewn y gymuned honno.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad eang o wasanaethau er mwyn cefnogi disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys y tîm iaith a lleferydd, athrawon anhwylderau iaith a'r seicolegydd addysg. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth werthfawr ac arweiniad i ddisgyblion, y staff a'r rhieni, pan fo'i angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Nodir targedau clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'n gymuned gyfeillgar gyda phwyslais amlwg ar ofal a pharch. Mae polisïau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant â'i gilydd yn llwyddiannus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol bron pob un o'r disgyblion.

Mae'r adeilad yn addas ar gyfer nifer y disgyblion ac yn cael ei gynnal yn lân a thaclus. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad gan greu amgylchedd dysgu diogel a deniadol. Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o'r ardal tu allan i hyrwyddo dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol, ac nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu'n briodol ar gyfer anghenion dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir a phwrpasol sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel drwy ddarparu profiadau dysgu cyfoethog er lles disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r pennaeth a staff yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion

ysgol gyfan ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau'r disgyblion yn erbyn blaenoriaethau gwelliant. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant. Maent yn adolygu eu pynciau yn rheolaidd ac maent yn datblygu'u medrau monitro ac arsylwi yn briodol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod materion gwella sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Enghraifft dda o hyn yw'r pwyslais diweddar ar sicrhau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu'r defnydd o TGCh mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws cryf ar gynnal presenoldeb uchel ei disgyblion. Mae'n gweithredu Siarter Iaith Gwynedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru ac yn siarad Cymraeg graenus o gwmpas yr ysgol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. Mae aelodau'r corff yn ymweld yn rheolaidd â'r dosbarthiadau. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o effeithiolrwydd y gweithgareddau dysgu ar safonau a lles y disgyblion ac yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafodaethau arfarnol rhwng y staff a'r llywodraethwyr ynglŷn â safonau a darpariaeth. Mae'r drefn yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion a'r rhieni. Er enghraifft, yn sgil ymateb disgyblion a rhieni, mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i wella'r ddarpariaeth ac adnoddau ar gyfer TGCh. Mae'r pennaeth yn cynnal adolygiadau o gynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r staff i sicrhau eu cyfraniadau at y drefn hunanarfarnu. Defnyddir y wybodaeth sy'n deillio o'r trefniadau hyn yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw penodol i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn cynnig darlun cywir a gonest o'r ysgol.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau. Caiff y cynllun datblygu ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr ac mae hyn yn sicrhau y gwneir cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar wella safon ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm a chryfhau eu medrau datrys problemau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sy'n ehangu a chyfoethogi profiadau disgyblion, ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion.

Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored cydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gref y rhieni, er enghraifft wrth hybu medrau darllen a TGCh eu plant.

Mae partneriaeth dda yn bodoli rhwng yr ysgol â'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n helaeth at weithgareddau cymunedol, er enghraifft drwy annog y disgyblion i gymryd rhan yn yr eisteddfodau lleol. Datblygir y bartneriaeth hon ymhellach drwy gydweithio gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri ac artistiaid lleol wrth i'r disgyblion gyfrannu tuag at adfywio amgylchedd yr Ysgwrn (cartref Hedd Wyn) ar gyfer ei ailagor i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnig profiadau gwerthfawr iddynt ddatblygu ymdeimlad o bwysigrwydd eu hardal leol a'u balchder tuag ati. Enghraifft dda o hyn yw eu brwdfrydedd wrth groesawu disgyblion o ysgol ym Mhenbedw wrth iddynt rannu eu gwaith ymchwil ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar eu cymunedau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i wella safonau a lles disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio agos gyda staff yr Uned Anhwylder Iaith i gefnogi disgyblion penodol.

Mae perthynas dda yn bodoli gyda'r cylch cyn-ysgol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n sydyn wrth gychwyn yr ysgol. Mae cydweithio buddiol rhwng yr ysgol â'r ysgol uwchradd, a'r trefniadau pontio, yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau wedi arwain at gysondeb a chywirdeb wrth lefelu gwaith disgyblion. Mae'r arfer o drefnu hyfforddiant ar y cyd gydag ysgolion y dalgylch wedi arwain at godi safonau rhifedd a darllen disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol i gefnogi a gwella'r dysgu. Mae ganddi nifer briodol o athrawon cymwys a chymorthyddion sy'n cydweithio'n dda i gyflwyno cwricwlwm diddorol. Mae staff yn derbyn cefnogaeth reolaidd gan y pennaeth i dderbyn cyfleoedd cadarn i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn dylanwadu'n llwyddiannus ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad y disgyblion, er enghraifft wrth gryfhau eu medrau rhifedd yn benodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae staff yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol i gydgynllunio'n bwrpasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill i rannu profiadau ac arfer dda. O ganlyniad i'r ffocws diweddar ar rifedd, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o ba strategaethau i'w defnyddio wrth ddatrys problemau rhif.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos yn bodoli â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer gwella safonau rhifedd a llythrennedd yr ychydig iawn sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612213 - Ysgol Bro Hedd Wyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 78 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 17 | 13 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 57.1 | 76.5 | 92.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 1 | 1 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 0.0 | 0.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 16 | 13 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 81.3 | 92.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 31.3 | 46.2 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 13 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.4 | 88.2 | 92.3 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 17.6 | 30.8 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 17 | 13 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 94.1 | 92.3 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 29.4 | 61.5 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612213 - Ysgol Bro Hedd Wyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 78 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 11 | 9 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.0 | 100.0 | 88.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 11 | 9 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 90.9 | 88.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 27.3 | 22.2 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 11 | 9 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 36.4 | 22.2 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 11 | 9 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 88.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 10.0 | 36.4 | 11.1 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 11 | 9 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 54.5 | 22.2 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 38<br>95%<br>92% | 2<br>5%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 40 | 40<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 40 | 40<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 40 | 40<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 40 | 38<br>95%<br>96% | 2<br>5%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 40 | 40<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 40 | 36<br>90%<br>91% | 4<br>10%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 40 | 40<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 40 | 37<br>92%<br>77% | 3<br>8%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 40 | 38<br>95%<br>84% | 2<br>5%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 35 | 27 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 35 | 27 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 35 | 29 | 6 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 35 | 20 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 35 | 19 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 35 | 28 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 35 | 26 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 35 | 23 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 66% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 35 | 23 | 10 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 66% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 35 | 24 | 10 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 35 | 27 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 24 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 34 | 20 | 13 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 35 | 25 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 35 | 21 | 11 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 60% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 35 | 22 | 11 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 63% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 35 | 19 | 11 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 54% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 35 | 24 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 69% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 35 | 29 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Rhian James Collins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Heulwen Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.